# DWN neu DON, HENRY (cyn c. 1354 - Tachwedd 1416), uchelwr a gwrthryfelwr

**Enw:** Henry Dwn
**Dyddiad geni:** cyn c. 1354
**Dyddiad marw:** Tachwedd 1416
**Plentyn:** Maredudd Dwn
**Rhiant:** Annes ferch Cadwgan ap Ieuan
**Rhiant:** Gruffudd Dwn
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** uchelwr a gwrthryfelwr
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwrthryfelwyr; Perchnogaeth Tir
**Awdur:** John K. Bollard

Roedd Henri Dwn o Groesasgwrn, Llangyndeyrn, Sir Gaerfyrddin, yn fab i Gruffudd Dwn (neu Gruffudd Gethin) ap Cadwgan ac Annes ferch Cadwgan ap Ieuan, ac yn ddisgynnydd o lin Llywelyn ap Gwrgan, arglwydd Cydweli. Ymddengys Dwn yn y cofnod hanesyddol yn gyntaf ym Mhicardi a Normandi yn 1369 yn llu John of Gaunt, dug cyntaf Caerhirfryn, ac fe'i penodwyd yn ystiward Cydweli gan Gaunt yn 1388-89. Yn ystod 1394-95 gwasanaethodd dan Rhisiart II yn Iwerddon.

Serch hynny, erbyn 1403, efallai mor gynnar ac 1401, yr oedd Dwn wedi ymuno â gwrthryfel Owain Glynd r. Mewn llythyr Lladin 'i'n cyfaill annwyl a thra charedig, Henri Don', y mae Glynd r yn ei orchymyn i ymuno ag ef 'gyda'r llu mwyaf posibl'. Efallai na chyrhaeddodd y llythyr hwn ei nod, ond er hynny daeth Dwn a'i fab Maredudd yn arweinwyr pwysig yn ymgyrch Glynd r yn y De. Ym Mehefin 1403, roedd Dwn gyda Glynd r, Rhys Ddu (siryf Ceredigion gynt) ac eraill pan gipiasant Gaerfyrddin, ac ym mis Medi daliodd Dwn long yn perthyn i John Sely, masnachwr o Lansteffan, ym mhorthladd Caerfyrddin. Trosglwyddwyd stiwardiaeth Cydweli yn 1401 i John Skydmore (Scudamore), cwnstabl castell Carreg Cennen, ac yn 1403 ymosododd Dwn, ei fab Maredudd, a'i  yr Gruffudd ap Maredudd deirgwaith ar gastell a thref Cydweli ond heb lwyddiant, hyd yn oed gyda chymorth gan luoedd Ffrengig a Llydewig ar 3 Hydref.

Fforffedwyd tiroedd Dwn yn 1407, a charcharwyd Dwn ei hunan ar brydiau yng Nghydweli a Chaerloyw. Dan amodau heddwch cymodlon Harri V, cafodd Dwn faddeuant yn 1413 ar ôl cytuno i dalu dirwy fawr. Prisiwyd y ddirwy honno yn £266.13s.4d yn erbyn ei wyrion Gruffudd ac Owain yn 1439, ond ni chafodd ei thalu fyth, ac o'r diwedd yn 1445, ymhell wedi marwolaeth Dwn, fe'i diddymwyd.

Yn y cywydd 'Ymddiddan yr Enaid â'r Corff' a ganwyd tua 1375-82, mae Iolo Goch yn sôn am dri o 'w r Cydweli' fel argwlyddi rhyfel, gan gyfeirio mae'n si r at Henri Dwn a'i deulu. Ac mae Lewys Glyn Cothi yn enwi Henri Dwn mewn cerdd i Wilym ap Gwallter, g r yr oedd ei fam yn wyres i Dwn.

Fel sawl un arall o'r uchelwyr, gallai Dwn fod yn llawdrwm a chynhennus, ac ni phoenai fawr ddim am achosion cyfreithiol yn ei erbyn. Yn ystod y 1380au gwaharddwyd ef dan berygl dirwy o £42 rhag herio perchnogaeth tiroedd a roddasai ei dad i Briordy Sant Ioan yng Nghaerfyrddin. Ar ôl ei bardwn yn 1413, cymerodd Dwn ei le unwaith eto fel arglwydd meistrolgar ar ei diroedd, gan fentro hyd yn oed osod treth yn ddigywilydd ar ddau gant o'i ddeiliaid a arhosodd ar ei dir heb ei gefnogi yn ystod y gwrthryfel. Fodd bynnag, cwynodd Dwn ei hunan yn ei dro am ormes Syr John Skydmore fel stiward Cydweli, gan ei gyhuddo o gynllwyno i ladd Dwn. Yn gam neu'n gymwys, diswyddwyd Skydmore yn 1415.

Bu Henri Dwn farw ym mis Tachwedd 1416.

## Awdur

**John K. Bollard**

## Ffynonellau


P. C. Bartrum, Bleddyn Owen Huws, et al., Prosiect Bartrum/Bartrum Project (Llywelyn ap Gwrgan 2)

R. R. Davies, *The revolt of Owain Glyn D r* (Oxford 1995)

T. W. Newton Dunn, 'The Dwn Family', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1946-47, 273-75

Lewys Dwnn, S. R. Meyrick (gol.), *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846), i

Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government I. South Wales, 1277-1536* (Cardiff 1972)

F. C. Hingeston, *Calendar of the patent rolls preserved in the Public Record Office: Henry IV, 1399-1413* (HMSO London 1905), vol. ii

G. H. Hughes, 'Y Dwniaid', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1941, 115-49

Dafydd Johnston, *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd 1988)

Dafydd Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd 1995)

Michael Livingston a John K. Bollard (goln.), *Owain Glynd  r: a casebook* (Liverpool 2013)

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (Oxford 1931)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: https://www.wikidata.org/wiki/Q19959822

**Dyddiad cyhoeddi:** 2019-04-02

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu